**Hysbysiad Preifatrwydd (Sut rydym yn defnyddio delweddau disgyblion)**

**Ysgol Gymraeg Dewi Sant**

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)**

**Pwy sy'n prosesu eich gwybodaeth?**

Ysgol Gymraeg Dewi Sant sy'n rheoli'r wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i ni. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn penderfynu ar y dibenion a'r ffordd y caiff unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â myfyrwyr a'u teuluoedd ei brosesu.

Mewn rhai achosion, caiff eich data ei anfon yn allanol i brosesydd trydydd parti; ond gwneir hyn gyda'ch caniatâd yn unig, oni bai bod y gyfraith yn gofyn bod yr ysgol yn rhannu eich data. Pan fo'r ysgol yn anfon data'n allanol i brosesydd trydydd parti, gosodir yr un safonau diogelu data y mae'r ysgol yn glynu atynt ar y prosesydd. Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud felly.

Ms Lynette Warren yw'r swyddog diogelu data ar gyfer Ysgol Gymraeg Dewi Sant.Ei rôl yw goruchwylio a monitro gweithdrefnau diogelu data'r ysgol a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r RhDDC. Gellir cysylltu â'r swyddog diogelu data ar 01446 709595.

Yn achlysurol gallem dynnu ffotograffau o ddisgyblion neu eu ffilmio yn ein hysgol at ddibenion addysgol. Gallai hyn gynnwys dangos y delweddau ar fyrddau project neu yng nghylchlythyron yr ysgol. Gallem hefyd dynnu ffotograffau o ddosbarthiadau neu unigolion ar gyfer cofnodion hanesyddol.

Gellir hefyd ddefnyddio'r delweddau rydym yn eu tynnu o'n disgyblion i hyrwyddo'r ysgol a gellir eu cyhoeddi ar daflenni, yn ein prosbectws, ar ein gwefan neu ar ein tudalen Twitter. Ni fyddwn yn defnyddio ffotograff eich plentyn yn y ffordd hon heb roi gwybod i chi yn gyntaf a chael eich caniatâd.

Mae adegau pan fo'r cyfryngau'n ymweld â'r ysgol i dynnu ffotograffau o ddigwyddiadau proffil uchel a'u ffilmio. Yn aml bydd disgyblion yn ymddangos yn y delweddau hyn a allai gael eu cyhoeddi mewn papurau lleol neu genedlaethol neu eu defnyddio ar raglenni ar y teledu.

**Ein Haddewid**

Ni fyddwn yn defnyddio delwedd eich plentyn at unrhyw ddiben os byddai'n niweidio lles eich plentyn.

Byddwn ond yn defnyddio delweddau o ddisgyblion sydd wedi gwisgo'n addas mewn gwisg ysgol neu ddillad chwaraeon a byddwn yn osgoi tynnu lluniau neu ffilmio fideos o ddisgyblion mewn dillad nofio, ac eithrio dan amgylchiadau priodol, er enghraifft perfformiad nofio.

Byddwn ond yn defnyddio'r swm lleiaf o wybodaeth bersonol am eich plentyn mewn unrhyw gyhoeddiad, megis enw cyntaf, enw'r ysgol a grŵp blwyddyn o bosibl, ac ni

fyddwn byth yn datgelu enwau llawn (oni bai ei bod yn briodol), cyfeiriad e-bost personol, rhifau ffôn neu gyfeiriad cartref.

Byddwn yn cadw delweddau a gwybodaeth bersonol eich plentyn yn ddiogel a naill ai'n dinistrio delweddau unigol pan fo'r plentyn yn gadael yr ysgol neu'n eu rhoi i chi oni bai bod eu hangen arnom at ddibenion hanesyddol neu addysgol.

Ni fyddwn yn defnyddio delwedd eich plentyn am unrhyw reswm heblaw am y rhai hynny sydd wedi'u nodi, oni bai bod gennym rwymedigaeth neu bŵer cyfreithiol, neu ein bod wedi derbyn caniatâd gennych chi.

Os oes gennych unrhyw bryderon am ffotograffau'n cael eu tynnu o'ch plentyn tra ei fod yn ein hysgol neu os oes unrhyw ymholiadau gennych am sut y gallai'r ffotograffau hyn gael eu defnyddio, cysylltwch â'r ysgol.